

Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed o Awst 2021

Presennol – Menai Hughes, Guto Jones, Trystan Humphreys, Ieuan Jones, Ffion Williams, Caerwyn Roberts, Maria Roberts (Cadeirydd), Cyngorydd Peter Lewis a Carol Humphreys (Clerc).

Ymddiheuriadau gan – Einion Edwards.

Datgan Diddordeb – Y Clerc yn datgan diddordeb oherwydd bod Aeron Humphreys wedi rhoi pris i'r Cyngor Bro am waith draenio yn y fynwent.

Cofnodion – cadarnhawyd cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

Materion yn codi

[1] Yr heddlu - Cafwyd e bost yn nodi nad oed neb yn gallu bod yn bresennol.

[1.1] Is Gadeirydd - paswyd ei adael eto tan y cyfarfod nesaf.

[1.2] Cyngor Conwy - Cliced y giat yn y cae chwarae dal heb ei gneud paswyd i gysylltu eto ar Cyngor.

[1.3] Cyngor Conwy - Er bod y chwynladdwr wedi ei ddefnyddio yn y safle bws, mae angen ail dds eto gan ei fod wedi tyfu nol cysylltu ar Cyngor.

[1.4] Arwydd Stryd King/Ysgol - Dal heb fynd i'w lleoliadau mae'r arwyddion. Heb glywed dim. Mae pryder am drafnidiaeth yn gyrru drwy'r pentref ac angen gwneud rhywbeth ar frys, holi am gael arwyddion cyflymder trafnidiaeth isel yn y bedair ffordd sydd yn arwain i'r pentref, y clerch i holi Sir a oes modd gwneud cais am arian or cronfeydd ffermydd gwynt yr ardal. Cysylltu ar heddlu hefyd i ddatgan ein pryder.

[1.5] Tori gwair y fynwent – Clerc wedi cael un pris ar lafar holi i gael y pris ar papur yn nodi manylion y gwaith ac holi am ddau bris arall i wneud yr un gwaith.

[1.6] Cynllun Chwarae Conwy - Nodwyd ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn a gofyn y flwyddyn nesaf am ddau sesiwn yr wythnos.

[1.7] Fynwent - Cafwyd pris am waith draenio yn y fynwent – paswyd i geisio am grant or fferm wynt Brenig y clerch i wneud cais . Gofyn am ddau bris arall i wneud y gwaith hefyd. (Angen tri pris dan amodau gwariant y Cyngor Bro).

[1.8] Llyfrgell Cerrig - Nodwyd bod neb heb ymgeisio am y swydd yn y llyfrgell. Nodwyd os oedd posibl bod mwy hyblyg gyda oriau y swydd - clerch i holi ymhellach.

Yr Agenda

[1.9] Cyfrifon – Nodwyd yr adroddiad archwilio mewnol - nid oedd unrhyw fater yn dod i sylw. Mae'r cyfrifon wedi ei cymeradwyo ai arwyddo a chyflwynwyd y ffurflen allanol i'r Archwilyr Allanol.

[2] Haydn Roberts - Bil am dori y gwair yn y fywent yr Eglwys a Tyn Rhyd £200.00 pasiwyd iw dalu.

[2.1] Arian Byw - Cafwyd telerau Teleri Jones am archwilio y cyfrifon mewnol a gwneud y cyflog. Derbyniwyd copi or 'Privacy Notice' ar 'Terms and Conditions' iw llofnodi ai cadw gan y Cyngor.

[2.2] Hope House llythyr yn diolch am ein cyfraniad.

[2.3] Cymdeithas Rhieni ac Athrawon - cafwyd llythyr yn datgan eu pryder am gyflymder traffic wrth yr ysgol, y clerch i egluro y camau nesa efo ymchwilio i wneud cais grant os yn bosibl.

Cadeirydd \_\_\_\_\_